Adroddiad Blynyddol Y Corff Llywodraethol

Governing Body Annual Report to Parents

2021-2022

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CORFF LLYWODRAETHOL I RIENI 2021-2022

ANNUAL REPORT OF THE GOVERNING BODY TO PARENTS 2021-2022

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyfnod rhwng mis Medi 2021 a mis Gorffennaf 2022. This report refers to the period between September 2021 and July 2022.

Cyfeiriad/Address: **Pen y banc, Blaendulais, Castell-nedd, SA10 9AA.**
Pen y banc, Seven Sisters, Neath . SA10 9AA

Rhif ffôn/ Phone Number: **01639 700342**

E-bost/ E-mail:**yggblaendulais@npt.school**

Gwefan/Website: **https://ygg-blaendulais.j2bloggy.com**

Ystod Oed/ Age Range: **3-11 oed**

Number on roll: **96**

Pennaeth gweithredol/ Acting Headteacher: **Mrs K Penhale**

LLYWODRAETHWYR/ GOVERNORS

Cadeirydd y Llywodraethwyr Chair person	Mrs Gaynor Smith
Is-Gadeirydd Vice chair person	Mr. Dafydd Francis
Pennaeth Headteacher	Mrs Kathryn Penhale
A.A.Ll. LEA	Mr Stephen Hunt
Aelodau Cymunedol Community Member	Mr Jeff Bloffwitch Mrs Eryl Price
Rhiant-Lywodraethwyr Parent Governors	Mrs Sally-Ann Evans Mrs Louise Donovan Mr Emyr Francis
Athro-Lywodraethwr Teaching Rep	Mrs Delith Battenbough
Staff (nad ydynt yn addysgu) Non teaching rep	Mrs Katie Jones
Awdurdod Cymunedol/ Community Authority	Mr.Gary James

DALIADAETH Y SWYDD

Penodir Llywodraethwyr am gyfnod o bedair blynedd. Ar ddiwedd cyfnod ar ran rhieni, anfonir llythyr at holl rieni'r disgyblion yn yr ysgol yn gofyn am enwebiadau.

Mae'r Cadeirydd a'r Is- gadeirydd yn cael eu hethol yn flynyddol.

TENURE OF OFFICE

For all Governors the term of office is four years. At the end of a four year period for parent governors, a letter is sent to all parents within the school, requesting nominations.

The Chairperson and Vice Chairperson are elected annually.

DYLETSWYDDAU'R LLYWODRAETHWYR

Rhaid i'r Llywodraethwyr gydweithio yn agos gyda'r pennaeth i sicrhau fod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol.

a) Maent hwy'n gyfrifol am ymddygiad cyffredinol yr ysgol
b) Rhaid iddyn nhw archwilio cwricwlwm yr ysgol yng ngoleuni polisïau'r Awdurdod Addysg.
c) Rhaid iddyn nhw benderfynu os ydy addysg ryw i fod yn rhan o gwricwlwm yr ysgol.
ch) Gallan nhw gynnig egwyddorion i'r pennaeth wrth benderfynu polisi disgyblaeth.
d) Rheoli arian sydd wedi ei drosglwyddo o'r Awdurdod Addysg.
dd) I fod yn gyfrifol am benodi staff yr ysgol.
e) Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol ar gael i'r rhieni.
f) Bod yn gyfrifol am drefnu adroddiad blynyddol i'r rhieni a threfnu cyfarfod blynyddol i drafod cynnwys yr adroddiad ag unrhyw fater arall sy'n ymwneud â bywyd yr ysgol.

Cynhaliwyd tri chyfarfod tymhorol yn ystod y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd ar gyfer yr is-bwyllgorau lle bo angen.

GOVERNOR'S RESPONSIBILITIES/ DUTIES

Governors have to work closely with Head teachers and Staff to ensure that the school runs smoothly and efficiently.

a) They are responsible for the general conduct of the school.
b) They must have a view on the appropriate curriculum for the school in the light of the L.E.A.'s general policies.
c) They decide whether sex education should be provided at the school.
d) They may offer the Headteacher general principles to follow in determining a policy of discipline.
e) They have control over a sum of money handed down to them by the LEA.
f) They take part in the procedures for appointing the school's staff.
g) They must make information about the school available to parents.
h) They are responsible for preparing an annual report to parents.

All Governors are expected to attend a training course organized by the L.E.A. Three termly meetings are held during the year.

Meetings are also held for the Governors' Subcommittee Groups when necessary.

TREFNIADAU AR GYFER Y CYFARFOD BLYNYDDOL GYDA RHIENI

O ganlyniad i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 (Mai 2013), nid yw'n ofynnol bellach i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfodydd blynyddol i rieni. Sut bynnag, mae'n bwysig bod y corff llywodraethol yn ymgysylltu'n weithredol gyda rhieni trwy ddarparu gwybodaeth a chyfleoedd iddynt gael mewnbwn i'r ysgol.

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 bellach yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethu trwy gyfrwng deiseb. Darperir crynodeb byr isod.

Rhaid i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn deiseb, cyn belled:

1. bod y ddeiseb yn cynnwys llofnodion yr isafswm angenrheidiol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, sef yr isaf o'r canlynol: (a) rheini 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu (b) rheini 30 o ddisgyblion cofrestredig.

2. rhaid i'r cyfarfod y mae rhieni wedi gofyn amdano drafod mater yn berthynol i'r ysgol.

3. ni chaiff mwy na thri chyfarfod eu cynnal yn ystod y flwyddyn y derbyniwyd y ddeiseb gyntaf.

4. mae digon o ddyddiau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal y cyfarfod. Mae'r cyfarfod yn agored i holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y pennaeth ac unrhyw berson arall a wahoddir gan y corff llywodraethu. Cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol mewn ysgrifen, beth ydy dyddiad y cyfarfod, a'r mater i'w drafod.

ARRANGEMENTS FOR THE ANNUAL MEETING WITH PARENTS

As a result of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, which came into force on 4th May 2013, a school governing body is no longer required to hold an annual parents meeting.

However, it is vital that the governing body actively engages with parents, by providing them with information and opportunities to discuss and have an input into the school.

The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 now enables parents of registered pupils at the school to request up to three meetings per year with the governing body via a petition.

A brief summary is provided below. The governing body must hold a meeting within 25 school days of receiving the petition, providing that:

1.the petition contains the signatures of the required minimum number of parents of registered pupils at the school, which is the lower of the following: (a) the parents of 10% of registered pupils, or (b) the parents of 30 registered pupils.

2. the meeting requested by parents must be to discuss a matter relating to the school.

3. there will be no more than three meetings held during the year in which the first petition is received.

4. there are sufficient school days left in the school year for the meeting to be held.

The meeting is open to all parents of registered pupils at the school, the headteacher and any other persons invited by the governing body. As soon as reasonably practicable, the governing body must notify all parents of registered pupils at the school in writing, the date of the meeting and the matter to be discussed.

1) Nifer o Blant a Staffio/ *Number of Pupils and Staffing*

Mrs K Penhale	Pennaeth gweithredol/ Acting Headteacher	
Mrs D Battenbough	Dirprwy Bennaeth gweithredol / Acting Deputy Headteacher Bl 1/2	26
Mrs M Rees (0.6) Mrs K Penhale (0.2)	Bl 5/6	23
Mrs K Jones	Meithrin/ Derbyn	32
Mrs T Parry	Bl 3/ 4	23
Mrs M Jones	Cynorthwydd Dosbarth	Teaching Assistant
Mrs Ll Humphreys	Cynorthwydd Dosbarth Staff awr ginio	Teaching Assistant Lunchtime supervisor
Miss A Davies	Cynorthwydd Dosbarth Staff awr ginio	Teaching Assistant Lunchtime supervisor(maternity leave cover)
Miss S Harries	Cynorthwydd Dosbarth	Teaching Assistant
Mrs B Francis	Cynorthwydd Dosbarth	Teaching Assistant
Mrs H Best	Cynorthwydd Dosbarth	Teaching Assistant
Mrs A Salter	Gweinyddol	Administration
Mr G Davies	Athro peripatetig (pres)	Brass tutor
Mrs A Salter	Gofalydd	Caretaker
Mrs S Hunter	Glanhawraig	Cleaner
Mrs V Griffiths	Glanhawraig	Cleaner
Miss M Thomas	Staff awr ginio	Lunchtime supervisor

CATEGORI IEITHYDDOL

Ysgol Gynradd Gymraeg yw Ysgol Blaendulais a Chymraeg yw iaith gyfathrebu'r ysgol. Erbyn i'r plant gyrraedd tua 5 – 6 oed maent yn ddigon profiadol i siarad Cymraeg yn hyderus a naturiol. Addysgir plant y Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg yn yr Adran Iau, ac ar wahan i wersi Saesneg, addysgir y plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Anelwn at sicrhau fod pob plentyn yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd Blwyddyn 6 ac ymdrechir i hysbysu rhieni o weithgareddau'r ysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

LINGUISTIC CATEGORY

Blaendulais is a Welsh-medium Primary School and Welsh is the school's language of communication. By the time the pupils reach approximately 5 – 6 years old they are experienced enough to speak Welsh confidently and naturally. Foundation Phase pupils are taught through the medium of Welsh. English is introduced in the Junior Department, and apart from English lessons, the children are taught through the medium of Welsh. We aim to ensure that every child is fully bilingual by the end of Year 6 and we endeavour to inform parents of the school's activities in Welsh and English.

CYSYLLTIADAU Â RHIENI, Y GYMUNED, SEFYDLIADAU ERAILL AC YSGOL GYFYN YSTALYFERA

LINKS WITH PARENTS, THE COMMUNITY, OTHER AGENCIES AND YSGOL GYFUN YSTALYFERA

i) RHIENI

Bu newidiadau i'r trefniadau arferol eleni oherwydd mesuriadau Covid:

Drws agored	- trwy alwad ffôn/ebyst
Noson Rhieni	- Mis Hydref (rhithiol/galwad ffôn)
	Mis Ebrill (wyneb i wyneb/rhithiol/galwad ffôn)
Sioe Nadolig	- Mis Rhagfyr (rhithiol)
CRAFf	- gweithgareddau rhithiol codi arian
Teachers2Parents	- Trwy gydol y flwyddyn
Gwefan yr ysgol	- Trwy gydol y flwyddyn
'Facebook'	- Trwy gydol y flwyddyn
Adroddiad Blynyddol	- Mis Gorffennaf

PARENTS

This year there were changes to our normal arrangements due to Covid restrictions:

Open door	-	phone calls throughout the year
Parents' Evening	-	October(virtual/phone call)
		April(face-to-face/virtual/phone call)
Christmas Show	-	December (virtual)
PTA	-	virtual money raising activities
Teachers2Parents	-	Throughout the year
School website	-	Throughout the year
Facebook	-	Throughout the year
Annual reports	-	July

ii) Y GYMUNED

- Gwersi awyr agored yn wythnosol
- Bl 5/6 cwrs preswyl
- Casgliadau sbwriel yn y pentref
- Ymweld â gardd leol a meithrinfa 'yr Hen Ysgol'
- Cymryd rhan mewn dathliadau Jiwbili yn y Neuadd gymuned
- Arolwg adar RSPB

THE COMMUNITY

- Weekly outdoor learning lessons
- Year 5/ 6 residential trip
- 'Keep Wales Tidy' litter picking in the village
- Visit to a local garden and Old School Nursery
- Took part in Jubilee activities in the community hall
- RSPB bird watch

iii) SEFYDLIADAU ERAILL

Cyngor lleol
Plant Mewn Angen – arian i elusen
Diwrnod Siwmper Nadolig – arian i elusen
Diwrnod Arch-arwyr Joseph – arian i'r apêl
Gwasanaethau Tân – ymwelwyr
Gwasanaeth Diogelwch Ffyrdd – yn rhithiol
Gwasanaeth Iechyd
Cwmni 'Mewn Cymeriad'
Heddwas
Ysgol Ystalyfera Bro Dur

OTHER ESTABLISHMENTS

Community Council
Children in Need – charity event
Christmas jumper day - charity event
Joseph's Super hero day (appeal)
The Fire Service – visitors to the school
Road Safety Service – visitors to the school
Health Service – visitors to school
'Mewn Cymeriad' show
Local Police
Ysgol Ystalyfera Bro Dur

iv) YSGOL GYFUN YSTALYFERA

Ffurfiwyd cysylltiadau â'r ysgol gyfun yn ein gweithgareddau:

- Hawl i holi Bl6 (yn rhithiol)
- Diwrnod Blasu Blwyddyn 5
- Cyfarfodydd cyswllt i benaethiaid
- Diwrnod pontio i flwyddyn 6 ar y campws
- Noson agored

YSTALYFERA COMPREHENSIVE SCHOOL

Links with our partner comprehensive school were made by means of :

- Year 6 virtual meeting , chance to ask transition questions
- Year 5 Taster day
- Head teacher cluster meetings
- Year 6 transition day (on Ystalyfera campus)
- Open evening

NODAU CHWARAEON

Oherwydd Covid nid oedd yn bosib darparu chwaraeon fel ag yn y blynyddoedd blaenorol. Gweithgareddau chwaraeon:

- Mabolgampau – cynhaliwyd ar gae Peldroed Blaendulais
- Hoci – cymerwyd rhan mewn cystadleuaeth hwyl
- Grŵp o ddisgyblion Bl 5 wedi'u hyfforddi fel Llysgenhadon Chwaraeon
- Derbyniodd Bl 5/6 wersi beicio
- Gwersi nofio i Fl 5/6

SPORTING AIMS

Unfortunately we were unable to offer a range of sporting activities as in previous years due to the Covid restrictions.

- Sports Day – held at Sevensisters AFC field
- Hockey – school took part in a festival
- A group of Year 5 trained as Sports Ambassadors
- Year 5/6 received bike safety lessons
- Swimming lessons for Year 5/6

CAMAU A GYMERWYD O GANLYNIAD I UNRHYW BENDERFYNIADAU A WNAED YN Y CYFARFOD DIWETHAF
ACTION AS A RESULT OF ANY RESOLUTIONS PASSED IN THE LAST MEETING

Nid oes penderfyniadau yn deillio o'r cyfarfod diwethaf.

No resolutions were passed in the last meeting.

TREULIAU'R LLYWODRAETHWYR/ GOVERNORS EXPENSES

Ni dderbyniwyd unrhyw gais am adaliad ariannol o blith y llywodraethwyr.

No claims for expenses were received from governors.

PROSPECTWS YSGOL 2022-2023/SCHOOL PROSPECTUS 2022-23

Newidiadau/ Changes

Angen newid/ *Need to amend:*
Ychwanegu enwau staff newydd / add new staff names –

Cwricwlwm i Gymru- Curriculum for Wales
Addysg Rhyw- Sex Education

DISGYBLION SYDD AG ANABLEDD

Yn unol ar Ddeddf Gwahaniaehu ar sail Anabledd 1995, ni wrthodir unrhyw blentyn ag anabledd rhag ei dderbyn fel disgybl yn yr ysgol hon. Hyd ag y medrwn, fe gymerir camau pendant i rwystro disgyblion sydd ag anabledd rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Mae'r Corff Llywodraethol wedi llunio Cynllun Mynediad/Cydraddoldeb sy'n cynnwys targedau byr a hir dymor.

PUPILS WITH DISABILITIES

In line with the Disability Discrimination Act 1995, no disabled child is refused admission to this school as a prospective pupil. We make every effort to take steps to prevent pupils with disabilities from being treated less favourably than other pupils. The Governing Body has drawn up an Accessibility/Equality Plan that includes short and long term targets.

BLAENORIAETHAU'R YSGOL / SCHOOL PRIORITIES

CYNLLUN GWELLA'R YSGOL 2021/ 2022

Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2021/ 2022 oedd:
Targed 1: Parhau i wella safonau sgiliau llafar y disgyblion.
Targed 2: I ddatblygu uwch sgiliau meddwl disgyblion.
Targed 3: Sicrhau bod disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd effeithiol (diwygio'r fframwaith ADY)
Llwyddwyd i gyrraedd cynnwys y mwyafrif o'r targedau.

SCHOOL DEVELOPMENT PLAN 2021/ 2022

The school's priorities for 2021/ 2022 were:
Target 1: To continue to improve oracy skills.
Target 2: To develop higher order thinking skills across the school.
Target 3: To ensure pupils with ALN make effective progress (adapting to the new ALN Framework) The school successfully reached most of the content of these targets .

CYNLLUN GWELLA'R YSGOL 2022/ 2023

(Rydym yn cadw yr un targedau a llynedd er mwyn parhau gyda'r gwelliannau)

Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2022/ 2023 yw:
Targed 1: Parhau i wella safonau sgiliau llafar y disgyblion.
Targed 2: I ddatblygu uwch sgiliau meddwl disgyblion.
Targed 3: Sicrhau bod disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd effeithiol (diwygio'r fframwaith ADY)

SCHOOL DEVELOPMENT PLAN 2022/ 2023

(We are keeping the same targets as last year to continue with the improvements and to embed these further)
The school's priorities for 2022/ 2023 are:
Target 1: To continue to improve oracy skills.
Target 2: To develop higher order thinking skills across the school.
Target 3: To ensure pupils with ALN make effective progress (adapting to the new ALN Framework)

ANGENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r sbectrwm a gynhwysir o fewn anghenion dysgu ychwanegol yn eithriadol eang, o blant â datganiadau swyddogol hyd at blant eithriadol ddisglair sy'n teilyngu gwaith ymestynnol i gadw eu diddordeb a datblygu eu galluoedd. Bwriadwn i bob disgybl elwa'n llawn o'i gyfnod yn Ysgol Gymraeg Blaendulais; rhaid felly darparu'n llawn ar gyfer pob angen a gosod strwythurau yn eu lle i fonitro a darparu ar gyfer yr anghenion hynny. Polisi cyffredinol yr ysgol yw gweithredu o fewn themâu canolog, traws gwricwlaidd tymhorol. Addysgir disgyblion mewn dosbarthiadau o allu a rhyw cymysg ymhob blwyddyn yn yr ysgol. Darperir cymorth dysgu i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn y dosbarthiadau. Bydd cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo grwpiau bychain o blant gyda'u tasgau Llythrennedd, Rhifedd ac ymyraethau eraill lle'n briodol. Mae polisi Addysg Anghenion Ychwanegol yr ysgol yn cydymffurfio â Chôd Ymarfer yr Awdurdod Addysg. Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Cydlynydd ADY (CADY), Mrs Delith Battenbough. Mae'r ysgol hefyd wedi ymateb i ofynion y Bil ADY newydd wrth iddo gael ei weithredu o fis Medi 2022. Mrs Gaynor Smith yw aelod y Corff Llywodraethu sy'n arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer ADY.

ADDITIONAL LEARNING NEEDS

The spectrum included within additional learning needs is very wide indeed, from children with an official statement to exceedingly bright children who deserve extension work to maintain their interest and develop their abilities. Our aim is for every pupil to profit fully from his/her period at Ysgol Gymraeg Blaendulais; full provision must therefore be made available for every need and structures put in place to monitor and provide for those needs. The general policy of the school is to work within termly, cross-curricular central themes. Pupils are educated in mixed ability and gender classes in every year at the school. Support is provided for children with Additional Learning Needs within the classroom environment. Teaching Assistants work with small groups of pupils on Literacy and Numeracy tasks and other interventions where appropriate. The school's Additional Learning Needs Policy fully complies with the Local Education Authority's guidelines and the Welsh Assembly's Code of Practice. The policy is reviewed annually by Mrs Delith Battenbough our Additional Learning Needs coordinator (ALNCo). The school has also responded to the requirements of new ALN Bill as it is implemented from September 2022.Mrs Gaynor Smith is the member of the Governing Body appointed to oversee the provision for ALN.

AMDDIFFYN PLANT

Swyddogion Amddiffyn Plant yr ysgol hon ar gyfer 2021 / 2022 oedd y Pennaeth, Mrs Kathryn Penhale a Mrs Delith Battenbough. Mae'r ysgol hefyd wedi penodi Mrs Gaynor Smith fel cynrychiolwr o'r Corff Llywodraethol i gydweithio gyda'r ysgol ar faterion Amddiffyn Plant. Adolygir y polisi Amddiffyn Plant yn flynyddol. Mae holl staff yr ysgol wedi diweddaru'u hyfforddiant Diogelu Plant gan y pennaeth.

CHILD PROTECTION

The Child Protection Officers for 2020 / 2021 were the Headteacher, Mrs Kathryn Penhale and Mrs Delith Battenbough. Mrs Gaynor Smith , is the designated governor who works alongside the school on Child Protection matters. The Child Protection policy is updated annually. All staff have received update training in Child Protection from the headteacher.

DIGWYDDIADAU NODEDIG/ NOTEABLE EVENTS

Gwnaeth Mrs Kate Brown dderbyn swydd parhaol yn yn y sir ac wedi ymddiswyddo fel pennaeth yr ysgol. Diolchwn iddi am dros 20 o flynyddoedd o wasanaeth i'r ysgol a dymunwn iddi hapusrwydd i'r dyfodol.

Mrs Kate Brown accepted a permanent post working in the county and handed in her resignation letter as head teacher of the school in the Summer term. The Governing body would like to thank her for her service to the school over the past 20 years and wish her well for the future.

ORIAU YSGOL/ SCHOOL HOURS

C.A. 2/ K.S.2

8.50 – 11.55 Sesiwn y Bore/ Morning Session

11.55 – 1.00 Amser Cinio/ Lunchtime

1.00 – 3:20 Sesiwn y Prynhawn/ Afternoon Session

Amser dysgu 24 AWR 45 MUNUD/wythnos gan ddiystyru amser cofrestru, gwasanaethau ac egwyl fore/prynhawn. / Teaching time 24 HOURS 45 MINUTES a week excluding registration , assemblies and morning/afternoon breaks

CYFNOD SYLFAEN/ FOUNDATION PHASE

8:50 – 11:50 Sesiwn y Bore/ Morning Session

11:50 – 1:00 Amser Cinio/ Lunchtime

1:00 - 3:20 Sesiwn y Prynhawn/ Afternoon Session

Amser dysgu 24 AWR 35 MUNUD yr wythnos

Teaching time 24 HOURS 35 MINUTES a week

MEITHRIN/NURSERY

8:50 – 11:50 Sesiwn y Bore/ Morning session

ADOLYGU POLISÏAU YSGOL/ REVIEW OF SCHOOL POLICIES

- Polisi Diogelwch Plant - Child protection
- Polisi Diogelu - Safeguarding Policy
- Polisi tal athrawon - Teachers Pay Policy
- Polisi presenoldeb - Attendance Policy
- Polisi Mynediad i'r ysgol -Admissions policy
- Polisi Rheoli Perfformiad- Performance Management Policy
- Polisi Cwynion- Complaints policy
- Polisi Marcio – Marking Policy
- Polisi Teithio a Chynhaliaeth -Travel and subsistence Policy
- Polisi Gwisg Ysgol- School Uniform Policy
- Polisi Diogelu Data -Data Protection Policy
- Polisi Cymhellion, Ataliaeth a Disgyblaeth- Incentives, Preventatives and Discipline Policy
- Datganiad y Cwricwlwm- Curriculum Statement

CYFLEUSTERAU TAI BACH/TOILET FACILITIES

Lleolir 8 ciwbicl tŷ bach a 2 droethle ar draws dwy ardal adeilad yr ysgol. Mae'r cyfleusterau yn addas ar gyfer oed y plant sy'n eu defnyddio. Ceir 1 tŷ bach ychwanegol at ddefnydd staff ac ymwelwyr yn unig. Glanheir y tai bach yn ddyddiol.

There are 8 toilet cubicles and 2 urinals located in the two separate buildings of the school. The toilets are appropriate to the age of the children who use them. There is 1 additional toilet for the exclusive use of school staff and visitors. All toilet areas are cleaned on a daily basis.

YFED A BWYTA'N IACH / HEALTHY EATING AND DRINKING

I atgyfnerthu'n nodau chwaraeon, mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach ac anogir disgyblion a'u rhieni i fwyta'n iach. Dosbarthwyd gwybodaeth i ddisgyblion a'u rhieni, yn eu hannog i ddarparu blychau cinio. Paratoir bwydlenni ar lefel Awdurdod sy'n sicrhau'r lefel gywir o faith. Anogir disgyblion i yfed dŵr wrth weithio ac y maent yn ymwybodol o bwysigrwydd hydradiad y corf. Oherwydd mesuriadau Covid nid oedd disgyblion Blwyddyn 6 yn gallu darparu siop ffrwythau iach yn foreol.

To complement the school's sporting aims, the school promotes healthy eating and drinking, pupils are encouraged to eat healthily. Leaflets have been distributed to pupils and parents encouraging them to provide healthy lunch boxes. School menus are prepared at Authority level to ensure the correct nutrition level. Pupils are encouraged to drink whilst working and are aware of the importance of remaining hydrated. Year 6 , due to Covid measures, were unable to maintain a fruit shop during break every morning.

TARGEDAU PRESENOLDEB

Ni osodwyd targedau ar gyfer presenoldeb yn ystod y flwyddyn 2021 / 2022, gan fod nifer o ddisgyblion yn gorfod hunan-ynysu oherwydd Covid. Fodd bynnag, fe wnaethom fonitro presenoldeb unigolion yn rheolaidd, gan weithio'n agos iawn gyda Swyddog Les Addysg yr Awdurdod Leol i gefnogi teulu a oedd yn achosi pryder. Presenoldeb yr ysgol 2021-22 oedd 92.4%.

ATTENDANCE TARGETS

No targets were set for attendance during 2021 / 2022, as many pupils had to self-isolate due to Covid. However, we regularly monitored the attendance of individuals, working closely with the Local Authority Education Welfare Officer to support a family causing concern. The school's attendance for 2021-22 was 92.4%.

TYMHORAU YSGOL /SCHOOL TERM DATES

2022 - 2023 Blwyddyn Academaidd

Cyfnod	Dyddiadau
Tymor yr Hydref 1	Dydd Llun, 5 Medi i Dydd Gwener, 28 Hydref
Hanner Tymor yr Hydref	Dydd Llun, 31 Hydref i Dydd Gwener, 4 Tachwedd
Tymor yr Hydref 2	Dydd Llun, 7 Tachwedd i Dydd Gwener, 23 Rhagfyr
Gwyliau'r Nadolig	Dydd Llun, 26 Rhagfyr i Dydd Gwener, 6 Ionawr
Tymor y Gwanwyn 1	Dydd Llun, 9 Ionawr i Dydd Gwener, 17 Chwefror
Hanner Tymor y Gwanwyn	Dydd Llun, 20 Chwefror i Dydd Gwener, 24 Chwefror
Tymor y Gwanwyn 2	Dydd Llun, 27 Chwefror i Dydd Gwener, 31 Mawrth
Gwyliau'r Pasg	Dydd Llun, 3 Ebrill i Dydd Gwener, 14 Ebrill
Tymor yr Haf 1	Dydd Llun, 17 Ebrill i Dydd Gwener, 26 Mai
Hanner Tymor yr Haf	Dydd Llun, 29 Mai i Dydd Gwener, 2 Mehefin
Tymor yr Haf 2	Dydd Llun, 5 Mehefin i Dydd Llun, 24 Gorffennaf

2022 - 2023 Academic Year

Period	Dates
Autumn Term 1	Monday, 5 September to Friday, 28 October
Autumn Half Term	Monday, 31 October to Friday, 4 November
Autumn Term 2	Monday, 7 November to Friday, 23 December
Christmas Holiday	Monday, 26 December to Friday, 6 January
Spring Term 1	Monday, 9 January to Friday, 17 February
Spring Half Term	Monday, 20 February to Friday, 24 February
Spring Term 2	Monday, 27 February to Friday, 31 March
Easter Holiday	Monday, 3 April to Friday, 14 April
Summer Term 1	Monday, 17 April to Friday, 26 May
Summer Half Term	Monday, 29 May to Friday, 2 June
Summer Term 2	Monday, 5 June to Monday, 24 July

Datganiad Cyllid Ysgol / Financial Budget Statement
Ebrill 2021-Mawrth 2022
April 2021-March 2022

YGG Blaendulais	
DELEGATED COSTS 2021/22	
	YTD-Actual
TEACHERS SALARIES	270,589.02
SALARIES	108,179.89
WAGES	0.00
OTHER EMPLOYEE EXPENSES	0.00
PREMISES	21,112.07
TRANSPORTATION	1,505.00
SUPPLIES AND SERVICES	12,746.32
THIRD PARTY PAYMENTS	0.00
SUPPORT SERVICES	50,512.38
GOVERNEMENT GRANTS & CONTRIBUTIONS	-86,246.96
SALES	-79.85
FEES AND CHARGES INCOME	0.00
INTERNAL RECHARGES	-37,862.78
RENTS	0.00
INTEREST RECEIVED	-44.28
TRANSFERS	66,884.19
TOTAL	**407,295.00**

NON-DELEGATED COSTS 2021/22	
	YTD-Actual
TEACHERS SALARIES	0.00
OTHER EMPLOYEES	0.00
OTHER DIRECT COSTS	0.00
MISC INCOME	0.00
GRANTS	0.00
CAPITAL CHARGES	0.00
CONTRIBUTION TO/(FROM) RESERVES	66,816.91
TOTAL	**66,816.91**

CYFFREDINOL/ GENERAL

Hoffwn ddiolch yn ddidwyll i Fwrdd Llywodraethol yr ysgol am eu cefnogaeth, i staff yr ysgol am eu gwaith diflino ac i CRAFf am ei gyfraniad i'r ysgol. Mae'r ysgol yn profi newidiadau am y gorau sy'n seiliedig at wella safonau dysgu ac addysgu, ymddygiad cymeradwy a phroffil parchus o fewn ein cymuned.

I would like to sincerely thank the Governing Body of the school for its support, the staff for their tireless work and CRAFf for its contribution to the school. The school has experienced changes for improvement that are based on high standards in teaching and learning, discipline and a good profile in our local community.